CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
CYNHALIWYD AR 23 CHWEFROR 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Gareth John, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Phil Grice, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Angharad Jones Leefe, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ken Lloyd, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Matthew Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams

Mr Alun Harries – Clerc y Cyngor Dref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid
Mrs Catrin Llwyd – Cyfieithydd

342. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Tom Defis, Baba Gana, Ioan Matthews.

343. Datgan Buddiannau

Y Cynghorydd Alun Lenny ar gyfer eitem 351 isod fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

344. Cwestiynau gan aelodau

Dim

345. Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim

346. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022

Cynigwyd gan y Cyng. Jeff Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Ken Lloyd a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

347. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2022.

Cynigwyd gan y Cyng. Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

348. Ystyried argymhellion y Pwyllgor neu materion sy'n codi

(i) Tudalen 84 – Eitem 330: Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2 Mehefin 2022
Cynigiodd y Cyng. Phil Grice y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad ac eiliwyd gan y Cyng. Miriam Moules. Roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

(ii) Tudalen 84- Eitem 331: Polisi Rheoli Risg ac Asesiad Risg 2022/23.
Cynigiodd y Cyng. Phil Grice y dylai'r asesiad risg gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ac eiliwyd gan y Cyng. Ken Lloyd. Roedd yr holl aelodau o blaid, a **PHENDERFYNWYD** y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r asesiad risg.

349. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 10 Chwefror 2022

Nododd y Cyng. Ken Lloyd newid bach i gyfansymiau cyfrifon banc y Cyngor. Gyda'r gwelliant hwn, cynigiwyd gan y Cyng. Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

350. Ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid neu faterion sy'n codi

(i) Tudalen 86 – Eitem 338: Polisi Rheoli Risg ac Asesiad Risg 2022/23
PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad risg fel y cytunwyd yn 348(ii) uchod.

(ii) Tudalen 87 – Eitem 340: Prynu offer chwarae cynhwysol newydd ar gyfer Parc Hinds a Pharc Penllwyn
Cynigiodd y Cyng. Ken Lloyd y dylid cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ac eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone. Roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

Adroddiad Clerc y Dref

351. Cynllunio

(i) **PL/03348 -** Estyniad arfaethedig i flaen a chefn yr annedd bresennol i ddarparu cyfleuster toiled ychwanegol a gwell ystafell ymolchi/ystafell gawod ynghyd â lle byw ychwanegol y tu ôl i'r annedd - 1 Heol Drindod, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NU. **DIM GWRTHWYNEBIAD**

(ii) **PL/03532.** Codi garej breifat. Carne, Heol Llansteffan, SA31 3QU. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

352. Priffyrdd

Dim

353. Trwyddedu

Dim

354. Cyfarfodydd Nesaf y Cyngor.

Eglurodd Clerc y Dref ei bod yn ofyniad cyfreithiol i alluogi aelodau, y wasg a'r cyhoedd i gael mynediad i gyfarfodydd corfforol a rhithwir cyngor a phwyllgor. Cynigiodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths y dylid dechrau dychwelyd yn raddol i'r cyfarfodydd hybrid hyn ym mis Mawrth. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Angharad Jones-Leefe, roedd pawb o blaid a **PHENDERFYNWYD** y mater.

355. Gohebiaeth

Dim

356. Adroddiad y Maer

Ers y cyfarfod diwethaf, adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn bresennol yn yr ymrwymiadau canlynol:

<u>Chwefror</u>

8fed Cyfarfod Glanhau'r Gwanwyn gyda swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin.

8fed Cyfarfod Cymdeithas Glan-yr-afon ynglyn â gwyl yr afon

23ain Byddin yr Iachawdwriaeth Caerfyrddin – Ail-agor y siop yn Heol Awst

357. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

(i) Mynychodd y Cyng. Phil Grice gyfarfod o Gymdeithas Glan yr Afon; bydd mwy o fanylion yn dilyn ynglŷn â Gŵyl Afon 2022.
(ii) Adroddodd y Cyng. Alun Lenny ei fod wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ynghylch gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y *Carmarthen Journal* yr wythnos hon.
(iii) Rhannodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths wybodaeth am lansiad y llyfr '*Only Blue Skies: The Town That Margaret Loved*'. Cynhelir y lansiad ar y 3ydd o Fawrth yn Neuadd Ddinesig San Pedr. Gwahoddwyd yr aelodau a'r staff i gyd i fod yn bresennol. Roedd noddwyr hael wedi sicrhau bod yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r llyfr wedi'u talu.
(iv) Rhoddodd y Cyng. Emlyn Schiavone ddiweddariad ynghylch y grŵp dementia yng Nghaerfyrddin a oedd wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda chyfarfod eto am 11y.b.ar 23 Mawrth 2022. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r rhai sy'n byw gyda dementia a/neu eu gofalwyr. Mae croeso i aelodau'r Cyngor fynychu.

Cyn diwedd y cyfarfod, dywedodd y Clerc fod Parc Caerfyrddin wedi ail-agor y diwrnod hwnnw ar ôl cael ei gau oherwydd y storm a chlirio coed oedd wedi cwympo.

Nododd y Clerc hefyd y byddai staff y Cyngor Tref yn cymryd rhan yn ymgyrch Glanhau'r Gwanwyn sy'n cael ei hyrwyddo gan y Cyngor ar ddydd lau 3ydd Mawrth ac mae croeso i aelodau ymuno.

Nododd y Cyng. Alun Lenny fod yr holl drefniadau yn eu lle ar gyfer parêd Dydd Gŵyl Dewi. Gofynnodd y Cyng. Lenny hefyd am ystyried gosod coed newydd yn lle'r rhai oedd wedi cwympo.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.03y.h.